

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

2/6/2020

Cyfarfod ar Zoom, oherwydd y Covid 19

Presennol: Rhodri Jones (Cadeirydd), Dewi Jones (Is-gadeirydd), Huw Antur, Branwen Haf, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Cyhoedd: neb yn bresennol.

2122 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd; derbyniwyd ymddiheuriad Heledd Jones. Nid oedd datganiadau o fuddiant.

2123 Cofnodion: Cadarnhawyd cywirdeb cyfarfod dros y we ar Mai 5ed 2020.

2124 Materion y Clerc:

- i. Llwybr Cŵn- nid yw'r llwybr wedi ei thorri hyd yn hyn; bydd y Clerc yn holi ymhellach
- ii. Trwsio canllaw pont Craig y Tân – addawodd Gwyn Lloyd Evans (Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Meirionnydd) y bydd y canllaw'n cael ei thrwsio unwaith bydd y cyfyngiadau oherwydd Covid 19
- iii. Adroddiad i Un Llais Cymru ar weithgaredd y Cyngor Cymuned – ar gais cynrychiolydd y Cyngor ar y Pwyllgor Ardal, anfonodd y Clerc erthygl a lluniau gan Alwyn E Jones i sylw Mel ab Owain.
- iv. **Datblygiadau arfaethedig ym Maes y pandy:** Diolchwyd i Huw Antur am ei lythyr at Catrin V Roberts, Grŵp Cynefin yn egluro ymwneud Sylfeini a'r Cyngor ers 15 mlynedd â thai fforddiadwy ym Maes y pandy. Diolchwyd i Catrin V Roberts am ymateb a chynnwys gwybodaeth oddi wrth Tîm Opsiynau Tai Cyngor Gwynedd.

Cytunwyd fod profi'r angen lleol yn holl bwysig a mynegwyd pryder fod y rhestr a oedd gan Tîm Opsiynau Tai Gwynedd ymhell allan o ddyddiad ac yn anghywir.

Cytunwyd i ofyn am sicrwydd ysgrifenedig gan Grŵp Cynefin na fyddant yn symud ymlaen heb yn gyntaf cynnal cyfarfod cyhoeddus yn Llanuwchllyn.

2125 Adroddiad Cyngor Gwynedd: Dywedodd Alan Jones Evans y byddai'n cysylltu gyda'r bobl oedd ar restr Opsiynau Tai Gwynedd er mwyn ceisio diweddarau'r rhestr, yn hytrach na bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ddatblygiadau ym Maes y pandy wedi eu seilio ar wybodaeth anghywir.

Diolchodd Alan Jones Evans i gwmnïau a busnesau lleol am eu haelioni wrth gyfrannu at ddiwallu anghenion *ppe* Awel y Coleg a Thîm Gofal Cartref Penllyn. Diolchodd fod Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad yn cau'n amserol atyniadau a darpariaethau twristiaeth yn y cyfnod Covid 19. Dywedodd ei fod yn disgwyl i Ganolfan Ailgylchu'r Bala agor yn fuan ar gyfer gwastraff cyffredin, gyda threfn apwyntiadau. Adroddodd fod swyddog o Gyngor

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Gwynedd wedi archwilio lle mae ffordd Bron Wylfa yn ymuno â'r stryd. Mae'r Cynghorydd hefyd wedi tynnu sylw'r Adran at yr angen i wella'r mynediad o'r B4403 at y llwybr sy'n arwain trwy'r caeau i'r stesion.

Dyweddodd ei fod yn parhau i adrodd wrth yr Heddlu am deithwyr o du allan i'r ardal er mwyn iddynt gofnodi maint y broblem; mae nifer yr ymwelwyr â'r llyn wedi gwaethygu ar ôl llacio'r rheolau'n ddiweddar. Diolchwyd i Alan Jones Evans am ei waith dros yr ardal.

2126 Adroddiadau Cynghorwyr:

- i. Eiddo: Mae gwaith cynnal a chadw ar y meinciau wedi cychwyn.
- ii. Diolchwyd i Alwyn E Jones am glirio'r coed oedd wedi disgyn yn ardal y fynwent ac am drwsio'r ffens.
- iii. Derbyniwyd dau bris pendant am y gwaith paentio *railings* y fynwent (ochr y maes parcio) ac mae'r gwaith wedi cychwyn.
Gofynnwyd i'r Clerc drefnu cynnwys gwaith yn y Porth ar yr un pryd.
- iv. Adroddodd Beryl Hughes Griffiths ei bod yn trafod gyda'r teulu manylion ail baentio'r ysgrifen a'r logo ar fedd Syr Ifan ab Owen Edwards.
- v. Toiledau: oherwydd y posibilrwydd bydd y rheolau ar gyfer toiledau cyhoeddus yn newid yn dilyn Covid 19, penderfynwyd gohirio'r drafodaeth am y tro gan ofyn i Karl Jones edrych ymhellach i'r rheolau newydd.
- vi. Gwefan y Paneli – mae'r wefan yn barod a diolchwyd yn gynnes iawn i Beryl Hughes Griffiths am ei gwaith; bydd yr is-bwyllgor cyllid yn cyfarfod i drafod talu am y gwaith ar y testun, a materion eraill.

2127 Materion ariannol:

- i. Derbyniadau a thaliadau – diolchwyd i'r Swyddog Ariannol am e-bostio gwybodaeth lawn a chymeradwywyd cytundeb 3 mlynedd gyda chwmni yswiriant CAME am y pris o £357.40 y flwyddyn.
Awdit 2019-20: rhoddwyd yr hawl i'r swyddogion ofyn am ohirio anfon y dogfennau at yr Archwilydd Allanol os na dderbynnir yr Adroddiad Archwiliad Mewnol mewn da bryd.

2128 Materion lleol y Cynghorwyr:

- i. Siarter Tai Celtaidd – cytunwyd i anfon at Gymdeithas yr Iaith i'w llongyfarch ar y ddogfen ardderchog hon.
- ii. Cytunodd Alan Jones Evans i dynnu sylw Cyngor Gwynedd at yr angen am sylw brys i sylfeini'r bont dros yr afon Twrch wrth Talardd, y coed sy'n tyfu allan o ochrau'r bont wrth yr orsaf, a phont y lein tu ôl i Fronheulog.

2129 Gohebiaeth - e-bostiwyd gohebiaeth Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Un Llais Cymru.

Derbyniwyd ymatebion i holiadur Un Llais Cymru .

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 7/7/20 ; lleoliad / cyfrwng ac amser yn ddibynol ar amgylchiadau Covid 19